

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Y Ffyrrd Ymuno ac Ymadael wrth Gyffordd 28 (Parc Tredegar), Casnewydd) (Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2018

The M4 Motorway (Slip Roads at Junction 28 (Tredegar Park), Newport) (Temporary 40 mph Speed Limit) Order 2018

Gwnaed 30 Gorffennaf 2018

Made 30 July 2018

Yn dod i rym 1 Awst 2018

Coming into force 1 August 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y draffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the M4 Motorway, are satisfied that traffic on specified lengths of the motorway should be restricted because of works proposed on or near the motorway.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Y Ffyrrd Ymuno ac Ymadael wrth Gyffordd 28 (Parc Tredegar), Casnewydd) (Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 1 Awst 2018.

1. The title of this Order is the M4 Motorway (Slip Roads at Junction 28 (Tredegar Park), Newport) (Temporary 40 mph Speed Limit) Order 2018 and it comes into force on 1 August 2018.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig 1984(2); a

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2); and

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion yr aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 1 Awst 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y draffordd” (“*the motorway*”) yw Traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwys

4. Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y'i dangosir gan arwyddion traffig.

Atal Dros Dro

5. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau modur ar y darnau o'r draffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn gymwys.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“the motorway” (“*y draffordd*”) means the M4 London to South Wales Motorway;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means that period commencing at 00:01 hours on 1 August 2018 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Restriction

3. No person may, during the works period, drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the motorway specified in the Schedule to this Order.

Application

4. The restriction in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Suspension

5. Any statutory provisions restricting the speed of motor vehicles on the lengths of the motorway specified in the Schedule to this Order are suspended during such times as the restriction specified in article 3 applies.

Duration of this Order

6. The maximum duration of this Order is 6 months.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

30 Gorffennaf 2018

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated

30 July 2018

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management & Standards
Welsh Government

YR ATODLEN

Darnau o draffordd yr M4 wrth Gyffordd 28 (Parc Tredegar) yn Ninas Casnewydd

Y darn o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o bwynt 400 metr cyn ei chyffordd â'r A48 hyd at y gyffordd honno.

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd o'i chyffordd â'r brif gerbyttfordd gylchredol wrth Gyffordd 28 am bellter o 250 o fetrau, gan gynnwys y darn cyfagos o lôn neilltuedig o'r A467.

Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin sy'n ymestyn i gyfeiriad y de-orllewin o bwynt 200 metr cyn ei chyffordd â'r brif gerbyttfordd gylchredol wrth Gyffordd 28 hyd at y gyffordd honno, gan gynnwys y darn cyfagos o lôn neilltuedig i'r A48.

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin sy'n ymestyn i gyfeiriad y de-orllewin o'i chyffordd â'r A48 am bellter o 300 metr.

SCHEDULE

Lengths of the M4 motorway at Junction 28 (Tredegar Park) in the City of Newport

The length of the eastbound exit slip road that extends in a north-easterly direction from a point 400 metres in advance of its junction with the A48 to that junction.

The length of the eastbound entry slip road that extends in a northerly direction from its junction with the main circulatory carriageway at Junction 28 for a distance of 250 metres, including the adjacent length of dedicated lane from the A467.

The length of the westbound exit slip road that extends in a south-westerly direction from a point 200 metres in advance of its junction with the main circulatory carriageway at Junction 28 to that junction, including the adjacent length of dedicated lane to the A48.

The length of the westbound entry slip road that extends in a south-westerly direction from its junction with the A48 for a distance of 300 metres.

**GORCHYMYN TRAFFORDD YR M4 (Y
FFYRDD YMUNO AC YMADAEL WRTH
GYFFORDD 28 (PARC TREDEGAR),
CASNEWYDD) (TERFYN CYFLYMDER 40
MYA DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar draffordd yr M4, neu gerllaw iddi, wrth Gyffordd 28 (Parc Tredegar), Casnewydd.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder dros dro o 40 mya ar y darnau canlynol o draffordd yr M4 wrth Gyffordd 28:

i. y darn o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o bwynt 400 metr cyn ei chyffordd â'r A48 hyd at y gyffordd honno;

ii. y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd o'i chyffordd â'r brif gerbyttffordd gylchredol wrth Gyffordd 28 am bellter o 250 o fetrau, gan gynnwys y darn cyfagos o lôn neilltuedig o'r A467;

iii. y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin sy'n ymestyn i gyfeiriad y de-orllewin o bwynt 200 metr cyn ei chyffordd â'r brif gerbyttffordd gylchredol wrth Gyffordd 28 hyd at y gyffordd honno, gan gynnwys y darn cyfagos o lôn neilltuedig i'r A48;

iv. y darn o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin sy'n ymestyn i gyfeiriad y de-orllewin o'i chyffordd â'r A48 am bellter o 300 metr.

Disgwylir y bydd y cyfyngiad, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn dod i rym am 00:01 o'r gloch ar 1 Awst 2018 ac yn weithredol am 6 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Dros Dro/ 2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE M4 MOTORWAY (SLIP ROADS AT
JUNCTION 28 (TREDEGAR PARK),
NEWPORT) (TEMPORARY 40 MPH SPEED
LIMIT) ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the M4 motorway at Junction 28 (Tredegar Park), Newport.

The effect of the Order is to impose a temporary 40 mph speed limit on the following lengths of the M4 motorway at Junction 28:

i. the length of the eastbound exit slip road that extends in a north-easterly direction from a point 400 metres in advance of its junction with the A48 to that junction;

ii. the length of the eastbound entry slip road that extends in a northerly direction from its junction with the main circulatory carriageway at Junction 28 for a distance of 250 metres, including the adjacent length of dedicated lane from the A467;

iii. the length of the westbound exit slip road that extends in a south-westerly direction from a point 200 metres in advance of its junction with the main circulatory carriageway at Junction 28 to that junction, including the adjacent length of dedicated lane to the A48;

iv. the length of the westbound entry slip road that extends in a south-westerly direction from its junction with the A48 for a distance of 300 metres.

It is expected that the restriction, which will be signed accordingly, will come into force at 00:01 hours on 1 August 2018 and operate for a maximum duration of 6 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

